**EITEM AR YR AGENDA: 9**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**15fed Hydref 2012**

## DARPARIAETH Y FFLYD YN Y GWASANAETH

**Adroddiad gan Paul Claydon, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Diben yr Adroddiad

1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Awdurdod am ddarpariaeth y Fflyd yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

## Y Cefndir

2 Mae adran y Fflyd wedi ei lleoli yng ngweithdai'r Gwasanaeth yng Nghyffordd Llandudno. Cafodd y Gweithdai eu dylunio yn 1996 i ddarparu cyfleuster agored modern gyda llawer o gyfarpar.

3 Rheolwr y Fflyd sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am gomisiynu a dadgomisiynu, rheoli, tanwydd, cynnal a chadw, ac atgyweirio holl gerbydau'r Gwasanaeth, yn ogystal â gwahanol asedau ar ffurf peiriannau arbenigol ac amrywiol sy'n cael eu trin yn fewnol.

4 Y gyllideb refeniw sydd ar gael i Reolwr y Fflyd i gyflawni cyfrifoldebau'r adran yn 2012/13 yw mymryn dros £880k. Rhai enghreifftiau o'r pwysau ar y gyllideb ar hyn o bryd yw'r amrywiadau ym mhris tanwydd a chyfraddau cyfnewid yn effeithio ar bartiau cerbydau.

## Gwybodaeth

5 Pan fo staff llawn yn yr adran, mae yno gyfanswm o 14. Maent yn cynnwys rheoli a goruchwylio, cefnogaeth weinyddol, technegwyr cerbydau arbenigol, prentisiaid cerbydau a thechnegwyr cyfarpar.

6 Mae 207 o gerbydau yn y fflyd, sef:

- 66 injan dân
- 21 peiriant arbenigol
- 4 cwch achub
- 10 ôl-gerbyd
- 4 bws mini
- 102 cerbyd ysgafn (sy'n cynnwys faniau, cerbydau ar hur gytundeb a cherbydau a ddarperir)

7 Yn ogystal â'i gerbydau, mae gan y Gwasanaeth dros 100 o ddarnau o beiriant. Mae'r rhain yn cynnwys generaduron trydan, pympiau symudol, trwyn pibelli, gwyntyll pwysau cadarnhaol, ysgolion – rhai trwm sy'n ymestyn ar gyfer diffodd tanau a rhai ysgafn ar gyfer gosod larymau mwg, ayyb.

8 Mae'r Rhaglen Newid Cerbydau yn rhan annatod o reolaeth gyffredinol y fflyd. Mae'n darparu offeryn gweithredol ac effeithiol i gynorthwyo i gynllunio'r gyllideb gyfalaf yn y tymor canolig a hir. Fel rhan o'r Rhaglen, mae llawer o ddylanwadau ar oes gwasanaeth disgwyliedig cerbyd, yn amrywio o'r math o gerbyd, ei ddefnydd a chyfradd y gweithgarwch, unrhyw becyn talu cydnabyddedig neu amodau gwasanaeth, cylch gweithio ac amgylchedd, a oes partiau newydd ar gael a chefnogaeth dechnegol gan y gwneuthurwr gwreiddiol.

9 Mae gan injans tân oes gwasanaethu ddisgwyliedig o 15 mlynedd; ac roedd y gost cyfalaf ar gyfer disodli'r peiriannau hyn yn ddiweddar yn £230 mil o bunnoedd ar gyfer pob peiriant. Mae gan beiriannau arbenigol oes weithredol o 20 mlynedd gyda'r gost cyfalaf cyn uched â £600 mil o bunnoedd yn dibynnu ar y math o beiriant. Mae gan gychod achub oes 12 mlynedd, a bysiau mini ac ôl-gerbydau oes 10 mlynedd. Mae gofyn i reolwyr gweithredol fabwysiadu'r cynllun llogi diwygiedig (prydles) o'r dyddiad y cânt eu penodi i'r system dyletswydd hyblyg fel y gallant gyflawni eu dyletswyddau gweithredol am 4 blynedd. Mae gan faniau'r gweithdy oes 3 blynedd. Y mae gan gerbydau'r Prif swyddogion hefyd oes 3 blynedd oherwydd bod y gyfradd fesul milltir mor uchel. Mae'r cerbydau hyn yn cael eu darparu er mwyn eu galluogi i gyflawni eu dyletswyddau strategol a gweithredol ac

maent yn rhan o'r pecyn tâl sydd ar gael i Reolwyr y Frigâd o gael eu penodi i'r fath swydd gan y Gwasanaeth.

10 Mae gwerth holl gerbydau'r rheolwyr yn cael eu capio'n flynyddol. Gwneir hyn drwy ddefnyddio ffigwr y Mynegai Prisiau Manwerthu ym mis Hydref, a gyhoeddir yn flynyddol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, sydd wedyn yn cael ei ddefnyddio i osod pris uchaf y cerbyd ar gyfer 1af Ionawr y flwyddyn ganlynol.

11 Defnyddir y Rhaglen gan Reolwr y Fflyd fel dogfen waith 'fyw'. Tra'n cydnabod y cyfyngiadau ariannol presennol, rhoddir ystyriaeth i gostau ac ymarferoldeb cael cerbydau hŷn o'u cymharu â rhai newydd.

12 Mae gan yr adran fflyd hanes o ddarparu gwasanaeth effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn seiliedig ar ethos darparu safon, dibynadwyedd, addasrwydd i'r diben, cael gafael ar gefnogaeth dechnegol, cynaliadwyedd, cael cysylltiad â defnyddwyr a pha mor gydnaws yw technolegau rhwng cerbydau a'i gilydd a pheiriannau hyd at ugain mlwydd oed.

**Argymhelliad**

13 Bod yr Aelodau'n nodi'r wybodaeth sydd yn yr adroddiad.